# Llywodraeth Cymru

# Is-adran y Môr a Physgodfeydd

# Cosbau Gweinyddol Ariannol (FAPs) ar gyfer Troseddau Pysgodfeydd

# Canllawiau



Fersiwn: 1
Cyhoeddwyd: Ebrill 2021

# Cynnwys

## Cynnwys


Cyflwyniad....3
Cipolwg....3
Canfod ac ymchwilio....4
Penderfynu ar lefel y gosb....5
Hysbysiadau cosb....7
Talu'r gosb....7
Gwrthwynebiad i dalu'r gosb....7
Talu cosb mewn perthynas â chychod neu longau pysgota tramor a Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron....8
Cofrestr ganolog o gosbau....8
Dulliau talu....8
Derbyn taliad....8
Diwygiadau i'r canllawiau....9
Rhannu data a'r Ddeddf Diogelu Data....9
Atodiad 1: Manylion cyswllt ar gyfer swyddfeydd Llywodraeth Cymru....10
Atodiad 2: Categorïau troseddau cosb....11
Atodiad 3: Templedi talu....19
Atodiad 4: Dulliau talu....27
Atodiad 5: Manylion talu o arian cyfred tramor....28

## Cyflwyniad

1. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn dod i rym ym mis **Ebrill 2021**.

2. Nid yw'r canllawiau hyn yn hollgynhwysol, ac nid ydynt yn ddatganiad diffiniol o'r gyfraith chwaith. Y ddeddfwriaeth berthnasol yw Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 OS 2019 Rhif 363[1].

3. I gael rhagor o gyngor ac arweiniad ynghylch y cynllun hwn cysylltwch ag Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru yn Aberdaugleddau (gweler Atodiad 1).

4. Mae cynlluniau tebyg yn gweithredu yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

## Cipolwg

5. Diben y system cosbau gweinyddol ariannol (FAP) yw ategu'r system orfodi bresennol yn hytrach na'i disodli. Efallai y cewch gynnig cosb[2] yn lle erlyniad troseddol o dan rai amgylchiadau. Dim ond pan fydd digon o dystiolaeth i erlyn unigolyn am drosedd a gwmpesir gan y cynllun FAP ('trosedd cosb') y bydd cosb yn cael ei chynnig. Rhestrir y troseddau cosb yn Atodiad 2.

6. Mae'r cynllun yn berthnasol i unrhyw weithgarwch pysgota môr o fewn Cymru a Pharth Cymru. Yn unol â'r Rheoliadau, a phan fo'n briodol, gellir rhoi hysbysiad cosb i feistr, perchennog, huriwr, gweithredwr a/neu berson sy'n atebol yn gyfreithiol.

7. Os bydd FAP yn cael ei chynnig, bydd talu'r gosb o fewn 28 diwrnod yn rhyddhau eich atebolrwydd i gael eich collfarnu am y drosedd i bob pwrpas. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw rwymedigaeth arnoch i dderbyn a thalu'r gosb os dymunwch i'r mater gael ei drin drwy achos llys. Ni fydd peidio talu'r gosb yn gyfystyr â throsedd ynddo'i hun.

8. Ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol, **ni** chynigir FAP ar gyfer:

- troseddau sy'n ymwneud â stociau sy'n destun mesurau arbennig neu gynllun adfer neu reoli sy'n golygu atal trwydded yn awtomatig pan na fyddai cosb bellach yn gymwys.
- trydydd trosedd neu droseddau dilynol o fewn yr un categori o drosedd.

Nid yw'r Rheoliadau yn caniatáu i FAP gael ei rhoi mewn perthynas â throseddau sy'n ymwneud ag ymosodiadau neu fygythiadau yn erbyn Swyddogion Gorfodi Morol (MEO)[3] neu'r rhai sy'n eu cynorthwyo, eu rhwystro neu fethu â chydymffurfio â gofynion MEO.

[1] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/363/contents
[2] Mae cosb yn y ddogfen hon yn cyfeirio at gosb weinyddol ariannol o dan Orchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019.
[3] Yn y ddogfen hon gellir ystyried swyddog gorfodi morol (MEO) yn swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig (BSFO) lle bo'n berthnasol.

9. Mae'n bosibl y bydd rhybuddion ysgrifenedig yn cael eu rhoi o hyd, ond cofiwch efallai na fydd rhybudd ysgrifenedig neu FAP yn cael ei roi bob tro ar gyfer trosedd gyntaf neu drosedd ddilynol os yw'r awdurdodau o'r farn bod erlyniad yn fwy priodol oherwydd natur y drosedd.

10. Gall aildroseddu arwain at gosbau uwch neu erlyniad.

11. Ar gyfer y casgliad llawn o sancsiynau gorfodi sydd ar gael i Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru (yr 'Is-adran'), cysylltwch a swyddfa Aberdaugleddau ar y rhif a restrir ar dudalen 10.

**Canfod ac ymchwilio**

12. Bydd MEO yn cynnal ymchwiliadau i droseddau honedig yn ymwneud â physgodfeydd yn unol â Strategaeth Cydymffurfio a Gorfodi'r Is-adran.

13. O fewn chwe wythnos i orffen yr ymchwiliad bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch y camau i'w cymryd am y troseddau a ganfuwyd. Byddwch yn cael gwybod am y penderfyniad yn ysgrifenedig.

14. Gall y broses ymchwilio gymryd peth amser. Yn ystod y cyfnod hwn, gall eich trwydded bysgota gael ei rhewi yn unol â pholisi trwyddedu Gweinyddiaethau Pysgota'r Deyrnas Unedig (UKFA) (mae hyn yn berthnasol i gychod a llongau'r DU yn unig). Os cewch gynnig cosb yn ddiweddarach, bydd y drwydded yn cael ei rhewi hyd nes y caiff y gosb ei thalu neu, os byddwch yn dewis peidio talu'r gosb, hyd nes y daw'r achos llys dilynol i ben.

15. Os penderfynir peidio cymryd camau pellach, yna ni fydd y drwydded yn cael ei rhewi mwyach.

16. Gall yr is-adran gyflwyno FAP ar gyfer unrhyw un o'r troseddau cosb a restrir yn Atodiad 2. Bydd yr holl hysbysiadau cosb a gyflwynir gan Is-Adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru yn cael eu hawdurdodi gan Bennaeth neu Ddirprwy Ganolfan Monitro Pysgodfeydd Cymru.

**Ystyried Cosbau Gweinyddol Ariannol (FAP)**

17. Os oes digon o dystiolaeth i erlyn trosedd sy'n dod o fewn y cynllun FAP, bydd ffeithiau'r achos yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf canlynol er mwyn penderfynu a yw FAP yn briodol:

- **Difrifoldeb y tramgwydd**: pa mor ddifrifol yw'r drosedd, yn cynnwys effaith amgylcheddol lle y bo'n briodol.
- **Hanes tramgwyddau blaenorol**: a fu unrhyw droseddu blaenorol a allai atal hysbysiad cosb rhag cael ei gyflwyno. Byddai troseddu blaenorol yn golygu unrhyw gollfarnau blaenorol, neu ddau neu ragor o hysbysiadau cosb; gan gynnwys pa gamau a gymerwyd o ganlyniad i unrhyw dramgwyddau blaenorol.
- **Troseddau eraill a ganfuwyd ar yr un pryd â'r drosedd dan sylw**: gall natur y troseddau hyn ychwanegu at ddifrifoldeb y tramgwydd cyffredinol.

- **Gwerth y ddalfa**: os yw'r tramgwydd yn ddigon difrifol i gyfiawnhau atgyfeirio'n uniongyrchol ar gyfer erlyniad, caiff gwerth y ddalfa ei ystyried. I'r diben hwn, fel arfer bydd 'digon difrifol' yn cael ei ystyried i olygu sefyllfa lle mae'r enillion ariannol posibl yn fwy na lefel uchaf y gosb sydd ar gael. Ystyr 'enillion ariannol' yw gwerth y ddalfa anghyfreithlon ar sail pris cyfartalog yr wythnos flaenorol yn y farchnad fwyaf priodol. Gallai hyn gynnwys marchnadoedd y tu allan i'r DU os yw'r llong yn glanio dramor yn gyson
- **Maint y ddalfa**: lle nad yw maint y ddalfa'n ddigon mawr i gyfiawnhau erlyniad. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i droseddau sgil-ddalfa ond gall fod yn ffactor hefyd mewn troseddau eraill lle mae maint y ddalfa anghyfreithlon yn sylweddol.
- **Niwed i'r amgylchedd/ecosystem**: gan gynnwys a oes mesurau adfer stoc ar waith ar gyfer y rhywogaethau dan sylw.

18. Os bydd ymchwiliad unigol yn arwain at ddarganfod mwy nag un drosedd a bod yr holl droseddau hynny'n cael eu hystyried yn addas ar gyfer ymdrin â hwy drwy FAP, caiff y troseddau eu rhannu, eu categoreiddio a rhoddir cosbau unigol iddynt hyd at uchafswm gwerth cyfunol o £10,000.

**Penderfynu ar lefel y gosb**

19. Mae pedair lefel sylfaenol o FAP, a rhoddir eu manylion yn y tabl isod. Mae pa lefel o FAP a gymhwysir yn dibynnu ar natur a difrifoldeb y drosedd a gyflawnwyd.

**Tabl 1: Lefelau cosb**

| | **Trosedd gyntaf** | **Ail drosedd** | **Troseddau pellach** |
|---|---|---|---|
| **Lefel 1** | £250 | £500 | Atgyfeirio ar gyfer erlyniad |
| **Lefel 2** | £500 | £1,000 | Atgyfeirio ar gyfer erlyniad |
| **Lefel 3** | £1,000 | £2,000 | Atgyfeirio ar gyfer erlyniad |
| **Lefel 4** | £2,000 | £4,000 | Atgyfeirio ar gyfer erlyniad |

20. Mae'r troseddau cosb i gyd wedi cael eu categoreiddio (gweler Atodiad 2) fel rhai sy'n perthyn i un o'r pedair lefel uchod. Mae lefel y gosb sylfaenol ar gyfer pob lefel o drosedd wedi'i phennu yn ôl difrifoldeb y tramgwydd dan sylw. Yn fras, mae'r lefelau hyn wedi'u gosod ychydig yn is na'r dirwyon sydd wedi'u gosod gan y llysoedd am droseddau tebyg yn y gorffennol. Mae hynny'n rhoi cymhelliad i'r troseddwr dderbyn y FAP. Gall y cosbau hyn gael eu haddasu yn unol â pharagraffau 22 – 23.

## Categorïau troseddau a lefelau cosb

**Tabl 2: Categorïau troseddau a lefelau cosb**

| Categori / Trosedd | | Lefel cosb | Trosedd gyntaf | Ail drosedd | Troseddau pellach |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Troseddau marchnata | 1 | £250 | £500 | |
| 2 | Troseddau amrywiol | 2 | £500 | £1,000 | |
| 3 | Troseddau mesurau cadwraeth technegol (gêr) | 3 | £1,000 | £2,000 | |
| 4 | Troseddau mesurau cadwraeth technegol (dalfa) | 3 | £1,000 | £2,000 | |
| 5 | Troseddau stoc adfer | 3 | £1,000 | £2,000 | |
| 6 | Troseddau rheoli (gan gynnwys troseddau Prynwyr a Gwerthwyr Cofrestredig a throseddau trwydded y DU) | 3 | £1,000 | £2,000 | |
| 7 | Troseddau mynediad | 4 | £2,000 | £4,000 | |
| | | | | | |
| 8 | Troseddau pysgota anghyfreithlon, heb ei reoleiddio a heb ei adrodd | 4 | £2,000 | £4,000 | |
| 9 | Troseddau pysgod rhy fach (UE, DU, Cymru) | 2 | £500 | £1,000 | |
| 10 | Troseddau Mynediad Cymru (Y glannau) | 3 | £1,000 | £2,000 | |
| 11 | Troseddau cadwraeth technegol (dalfa) Cymru (Y glannau) | 2 | £500 | £1,000 | |
| 12 | Troseddau cadwraeth technegol (gêr) Cymru (Y glannau) | 2 | £500 | £1,000 | |
| 13 | Troseddau trwydded Cymru (Y glannau) | 1 | £250 | £500 | |

21. Os yw'r enillion ariannol a nodwyd (sy'n gysylltiedig â'r drosedd neu'n deillio ohoni) yn fwy na lefel arfaethedig y gosb, caiff y gosb a gynigir ei chynyddu gan luosrifau o lefel berthnasol y gosb sylfaenol (£250, £500, £1,000 neu £2,000) hyd nes y bydd gwerth y gosb yn fwy na'r enillion ariannol a nodwyd.

22. Gallai hyn gynnwys, **lle bo'n briodol**, cynnig cosb o hyd at £10,000. Os yw'r enillion ariannol yn fwy na £10,000, neu os ystyrir bod yr enillion ariannol mewn perthynas â'r drosedd o natur ddifrifol, bydd yr Is-adran yn dechrau achos troseddol heb gynnig FAP fel arfer.

23. Os canfyddir troseddau cosb lluosog, dim ond unwaith y caiff yr enillion ariannol a nodwyd eu hystyried mewn perthynas â'r troseddau cosb. Lle mae'r enillion ariannol wedi'u hystyried eisoes wrth gyfrifo cosb, bydd y troseddau cosb sy'n weddill yn cael eu cynnig ar y lefel gosb sylfaenol berthnasol yn unol â pharagraff 19. Fel y nodir ym mharagraff 18, gellir rhoi hysbysiadau cosb lluosog hyd at gyfanswm gwerth cyfunol o £10,000.

24. Ni roddir mwy na 2 FAP ar gyfer categori tebyg o drosedd. Bydd y FAP yn cael ei gynyddu i'r lefel nesaf sydd ar gael os yw unrhyw un o'r unigolion sy'n atebol yn gyfreithiol ac y cynigir y gosb iddynt wedi cael dirwy ar gyfer yr un categori o drosedd yn y ddwy flynedd flaenorol. Bydd trosedd arall yn yr un categori yn arwain at atgyfeirio ar gyfer erlyniad troseddol (ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol).

**Hysbysiadau cosb**

25. Unwaith y gwneir penderfyniad y dylid cynnig FAP, bydd hysbysiad cosb ("hysbysiad o gyfle i dalu") (Atodiad 3) yn cael ei gyflwyno gan yr Is-adran i'r rhai y bernir eu bod yn atebol am y drosedd cosb. Bydd hwn yn rhoi manylion amgylchiadau'r drosedd a lefel y gosb a gynigir. Bydd hysbysiadau'n cael eu danfon â llaw neu eu hanfon drwy'r post, a byddant yn nodi sut y dylid gwneud taliadau os caiff y FAP ei derbyn.

26. Gellir tynnu hysbysiad cosb yn ôl cyn neu ar ôl talu'r gosb os caiff ei roi drwy gamgymeriad, os yw'n cynnwys gwallau technegol neu os caiff ei roi i'r unigolyn anghywir. Pan fydd hysbysiad cosb yn cael ei dynnu'n ôl, bydd unrhyw arian a dalwyd yn cael ei ad-dalu'n llawn, ond mewn amgylchiadau priodol gellir rhoi hysbysiad cosb newydd.

**Talu'r gosb**

27. Rhaid talu pob cosb o fewn 28 diwrnod i gyflwyno'r hysbysiad cosb.

28. Yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, gallai sawl unigolyn fod yn atebol am FAP, megis y meistr, y perchennog, yr huriwr, y gweithredydd, y cynrychiolydd neu unigolyn arall sy'n atebol yn gyfreithiol. Os telir cosb gan unrhyw un o'r unigolion a dderbyniodd FAP, caiff yr unigolion eraill a dderbyniodd y FAP honno eu rhyddhau o'u hatebolrwydd i'w thalu.

29. Er enghraifft, pan ganfyddir bod meistr a pherchennog cwch pysgota'n gyfrifol yn ôl y gyfraith am drosedd cosb a bod y ddau wedi derbyn hysbysiad cosb o £1,000 y maent yn atebol amdano ar y cyd ac yn unigol, dim ond un ohonynt sydd angen talu'r gosb o £1,000. Os yw'r perchennog yn talu'r £1,000, bydd yr hysbysiad a roddwyd i'r meistr yn cael ei drin fel pe bai wedi cael ei dalu.

30. Pan fydd taliad wedi'i dderbyn gan unigolyn sy'n atebol yn gyfreithiol mewn perthynas â throsedd ar y cyd, bydd hysbysiad ysgrifenedig ("hysbysiad o daliad") (Atodiad 3) yn cael ei anfon at yr unigolyn arall/unigolion eraill sy'n atebol yn ôl y gyfraith yn datgan i daliad gael ei dderbyn mewn perthynas â'r drosedd/troseddau cosb, ac yn nodi bod eu cosb yn cael ei thrin fel pe bai wedi'i thalu.

**Gwrthwynebiad i dalu'r gosb**

31. Gan y gallai talu'r gosb effeithio ar bob unigolyn y rhoddwyd hi iddo, mae mesurau wedi'u rhoi ar waith i ganiatáu i unrhyw un o'r unigolion hynny sy'n atebol ar y cyd ac yn unigol i herio'r broses. Rhaid anfon hysbysiad ysgrifenedig o wrthwynebiad drwy'r post neu ei ddanfon â llaw o fewn 28 diwrnod i gyhoeddi'r hysbysiad cosb os yw'r

unigolyn/unigolion yn gwrthwynebu i'w cosb gael ei thrin fel pe bai wedi'i thalu. Gweler tudalen 21 am fanylion ynghylch i ble y dylid anfon Hysbysiad Gwrthwynebu.

32. Pan fydd hyn yn digwydd, ni chaiff cosb ei thrin fel pe bai wedi'i thalu, gyda'r canlyniad, os bydd y gosb yn parhau heb ei thalu ar ddiwedd y cyfnod o 28 ddiwrnod, y caiff yr achos ei atgyfeirio i'w erlyn yn y ffordd arferol. Ni fydd hyn yn effeithio ar y rheini sydd wedi talu mewn gwirionedd, neu nad ydynt yn gwrthwynebu i'r hysbysiad cosb gael ei drin fel pe bai wedi'i dalu.

### Talu cosb mewn perthynas â chychod neu longau pysgota tramor a Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron

33. Gall y rhai sy'n gweithredu cychod neu longau o Diriogaethau Dibynnol ar y Goron neu unrhyw wlad heblaw'r Deyrnas Unedig ofyn am gael eu herlyn, hyd yn oed os ydynt wedi talu'r gosb berthnasol.

34. Os yw erlyniad yn arwain at gollfarn, bydd unrhyw gosb a dalwyd yn cael ei rhoi tuag at unrhyw ddirwy a osodir gan y llys a bydd unrhyw swm dros ben yn cael ei ad-dalu. Os bydd yr achos llys yn arwain at ryddfarn, caiff y gosb ei had-dalu'n llawn.

35. Mae gan weithredwyr llongau y tu allan i'r DU hawl i ddefnyddio'r adran "Gwrthwynebiad i dalu'r gosb" uchod hefyd.

### Cofrestr ganolog o gosbau

36. Bydd manylion pob cosb yn cael eu cadw ar gofrestr ganolog. Os byddwch yn dewis peidio talu cosb a'ch cael yn ddieuog yn y llys, ni chaiff unrhyw dramgwydd ei gofnodi ar y gronfa ddata ac ni fydd y FAP yn cyfrif fel trosedd flaenorol mewn unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol.

### Dulliau talu

37. Ni chaniateir talu mewn arian parod. Rhaid gwneud taliadau naill ai drwy siec neu drosglwyddiad electronig drwy GOV.PAY. Dylai'r sawl sy'n derbyn FAP ddefnyddio un o'r dulliau talu canlynol yn Atodiad 4, gan ddyfynnu'r cyfeirnod o'r hysbysiad cosb a fydd yn dilyn y patrwm "PFV**nnnn**", er enghraifft PFV**1234**.

38. Rhaid i chi wneud eich taliad mewn pryd iddo gael ei glirio cyn diwedd y cyfnod talu o 28 diwrnod. Os ydych chi'n talu drwy siec **dylech ganiatáu pum diwrnod gwaith** i sieciau a delir glirio.

39. Rhaid i daliadau mewn ewros fod yn ddigon i dalu gwerth cyfan y gosb ar ôl trosi i sterling ar y gyfradd drosi adeg talu a thaliadau banc perthnasol.

### Derbyn taliad

40. Unwaith y daw'r taliad i law, byddwn yn anfon derbynneb atoch a bydd cofnod o'r hysbysiad cosb yn cael ei gadw. Mewn rhai amgylchiadau, gallai'r ffaith bod hysbysiad

cosb wedi'i dalu gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth yn eich erbyn mewn achos llys.

41. Os na fyddwch yn talu'r hysbysiad cosb o fewn y cyfnod o 28 diwrnod, caiff y drosedd ei hatgyfeirio i'w herlyn.

**Diwygiadau i’r canllawiau**

42. Bydd y ddogfen ganllaw hon yn cael ei diwygio a'i hadolygu yn ôl yr angen i gynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r cynllun FAP.

**Rhannu data a'r Ddeddf Diogelu Data**

43. Gall gwybodaeth am FAP neu'r drosedd y mae'n ymwneud â hi gael ei rhannu neu gellir gofyn am fewnbwn gan gyrff gorfodi eraill fel y bo'n briodol, yn amodol ar gyfraith diogelu data berthnasol.

## Atodiad 1: Manylion cyswllt ar gyfer swyddfeydd Llywodraeth Cymru

**Aberdaugleddau**

Y Môr a Physgodfeydd
Llywodraeth Cymru
Ystafell 3 - Cwrt Cedrwydden
Parc Busnes Haven's Head
Aberdaugleddau
Sir Benfro
SA73 3LS

Ffôn: 03000 253500

E-bost: milfordhavenfisheriesoffice.gov.wales

**Atodiad 2: Categorïau troseddau cosb**

| | |
|---|---|
| **Categori 1: Troseddau marchnata** | |
| | Labelu |
| | Graddio – maint |
| | Graddio – ffresni |
| | Marchnata – troseddau eraill |
| | |
| **Categori 2: Troseddau Amrywiol** | |
| | Dalfa – troseddau eraill (gan gynnwys troseddau sgil-ddalfa rheoleiddio cwota) |
| | Methu ag arddangos llythrennau a rhifau porthladd ar gwch neu long neu Gronfa Ddata Gweithgareddau Pysgodfeydd |
| | Methiant i ddangos llythrennau a rhifau porthladd ar gêr |
| | Methiant i gyhynhyrchu cynllun ystafell bysgod ardystiedig neu dablau gwagle neu gynllun stowio |
| | Methiant i ddarparu ysgol i gyrraedd bwrdd llong |
| | Methiant i ganiatáu'r defnydd o offer cyfathrebu |
| | Defnydd anghyfreithlon neu ddim defnydd o fwiau marcio |
| | Methiant i hysbysu am gêr (os yn destun trefniadau rheoli ymdrech) |
| | Methiant i ganfod neu roi gwybod am gêr coll |
| | |
| **Categori 3: Troseddau mesurau cadwraeth technegol (gêr)** | |
| | Pysgota mewn ardaloedd cyfyngedig – troseddau eraill |
| | Gêr wedi'i stowio'n anghywir |
| | Maint y rhwyll – canran gofynnol y rhywogaethau targed – gêr llusg |
| | Maint y trawst |
| | Atodiad anghyfreithlon |
| | Rhuglwr ochr isaf anghyfreithlon |
| | Rhuglwr ochr uchaf anghyfreithlon – math A |
| | Rhuglwr och uchaf anghyfreithlon – math B |
| | Bag atgyfnerthu anghyfreithlon |
| | Darn rhuglo anghyfreithlon |
| | Llinell benfras anghyfreithlon |
| | Strap codi anghyfreithlon |
| | Strap crwn anghyfreithlon |
| | Llabed anghyfreithlon |
| | Rhaff atgyfnerthu anghyfreithlon |
| | Torcét anghyfreithlon |
| | Cario rhwydi rhy fach |
| | Rhwydi drysu neu gêr goddefol – cludo neu ddefnyddio neu hyd neu faint y |

| | |
|---|---|
| | rhwyllau |
| | Panel rhwyllau sgwâr anghyfreithlon neu fethiant i ddefnyddio panel rhwyllau sgwâr |
| | Rhwyllau gormodol mewn cylchedd |
| | Treillrwyd neu geometreg |
| | Trwch cortyn |
| | Troseddau gêr – arall |
| | Panel rhwyllau sgwâr – methu â defnyddio panel rhwyllau sgwâr |
| | Panel rhwyllau sgwâr – rhwyllau rhy fach |
| | Panel rhwyllau sgwâr – dimensiwn |
| | Panel rhwyllau sgwâr – lleoliad wrth dreillio |
| | Geometreg treillio |
| | Cyfyngiadau treillio rig dwbl |
| | Llusgrwyd cregyn bylchog anghyfreithlon |
| | Troseddau gêr eraill yn y DU |
| | |
| **Categori 4: Troseddau mesurau cadwraeth technegol (dalfa)** | |
| | Mynd i flwch mecryll gyda dalfa o fecryll heb ei datgan (gweler ECAD) |
| | Methiant i sicrhau 95 y cant o folysgiaid dwygragennog wrth bysgota gyda llusgrwydi |
| | Dal pennog ar gyfer defnydd diwydiannol |
| | Glanio cregyn bylchog wedi'u torri allan neu gynffonnau cimychiaid |
| | Pysgota am rywogaethau neu eu cadw – heb gwota neu gwota wedi'i ddefnyddio |
| | Prosesu pysgod yn anghyfreithlon |
| | Eog a brithyll môr |
| | Gofynion cyfansoddiad dalfa rhwyd ddrysu |
| | Cadw draenogod y môr o ardal silio draenogiaid môr |
| | Glanio crafangau crancod |
| | |
| **Categori 5: Troseddau stoc adfer** | |
| | Methiant i ddal 30 y cant o gimwch Norwy ym Môr y Gogledd (80 i 109 mm) |
| | Methiant i fodloni cyfansoddiad dalfa (110 i 119 mm) ar gyfer chwitlyn glas |
| | Cludo neu ddefnyddio gêr (100 i 119 mm) |
| | Dalfa penfras yn fwy nag 20 y cant (32 i 119 mm) |
| | Prif banel anghyfreithlon (70 i 99 mm) |
| | Panel rhwyllau sgwâr anghyfreithlon (70 i 99 mm) |
| | Trwch cortyn |
| | Cylchedd y rhwyd yn rhy fawr (70 i 89) (90+) |
| | Strwythurau gêr (rhwyll bedairochrog cyfartal ar y top a’r gwaelod gyda chortynnau lluosog) |

| | |
|---|---|
| | Treillrwyd drawst – cyfyngiadau technegol |
| | Rhwydi sefydlog – mwy na 30 y cant o benfras (amrediad maint y rhwyll yn llai na neu'n hafal i 139 mm) |
| | Pysgota anghyfreithlon mewn blwch penfras cyfyngedig neu gaeedig |
| | Methiant i roi gwybod am gerau ar gyfer cyfnod rheoli |
| | Methiant i roi gwybod am gêr penodol ar gyfer pob taith |
| | Pysgota am fwy na'r diwrnodau awdurdodedig |
| | Gêr anawdurdodedig (cludo neu ddefnyddio) |
| | Methiant i hysbysu am fynd i mewn i neu allan o ardal adfer penfras |
| | Glanio mwy na'r cyfanswm a ganiateir mewn porthladdoedd heb eu dynodi (mwy na dwy dunnell fetrig) |
| | Troseddau eraill sy'n gysylltiedig â phenfras |
| | Cadw mwy na 100 kg o rywogaethau'r môr dwfn heb drwydded |
| | Methiant i gofnodi ymdrech yn y llyfr log |
| | Glanio mwy na 100 kg o rywogaethau'r môr dwfn mewn porthladd heb ei ddynodi |
| | Gwaharddiad ar dynnu esgyll siarcod |
| | Gwaredu cyrff siarcod |
| | Mynd y tu hwnt i'r gymhareb ddamcaniaethol o 5 y cant o esgyll siarcod |
| | Methiant i gadw cofnodion o esgyll siarcod |
| | Torri'r gofyniad i hysbysu – glanio esgyll siarcod |
| | Glanio rhywogaethau adfer mewn porthladd heb ei ddynodi |
| | Dim cynllun stowio neu gynllun stowio anghywir |
| | Methiant i stowio rhywogaethau adfer ar wahân |
| | Dalfa cegddu'n fwy nag 20 y cant (treillrwydi nad ydynt yn rhai trawst 55 i 99 mm) |
| | Dalfa cegddu'n fwy na 5 y cant (treillrwydi trawst 55 i 99 mm) |
| | Trwch cortyn |
| | Cylchedd rhwyllau yn fwy na'r hyn a ganiateir |
| | Prif banel anghyfreithlon |
| | Gêr llusg anawdurdodedig (cludo neu ddefnyddio gêr) (cegddu) |
| | Gêr sefydlog anawdurdodedig (cludo neu ddefnyddio gêr) (cegddu) |
| | Glanio mwy na'r cyfanswm a ganiateir mewn porthladd heb ei ddynodi (cegddu) |
| | Methiant i hysbysu am fynd i mewn i neu allan o ardal sy'n sensitif yn fiolegol |
| | Glanio mwy na 10 tunnell o rywogaethau pelagig mewn porthladd heb ei ddynodi |
| | Methiant i roi hysbysiad 4 awr cywir cyn glanio |
| | Methiant i bwyso pysgod wrth lanio |
| | Cam-gofnodi neu dan-ddatgan rhywogaethau pelagig |
| | Pysgota am fwy na'r diwrnodau awdurdodedig |
| | |

| Categori 6: Troseddau rheoli (gan gynnwys Prynwyr a Gwerthwyr Cofrestredig a throseddau trwydded y DU) | |
|---|---|
| | Torri amodau hawlen trwydded |
| | Methiant i symud ardal bysgota (wedi mynd yn uwch na'r lefel trothwy mewn dwy ddalfa) |
| | Methiant i gludo'r llyfr log |
| | Methiant i gwblhau'r llyfr log |
| | Methiant i gwblhau datganiad glanio |
| | Cofnodi rhywogaethau'n anghywir neu ddim o gwbl – llyfr log (gan gynnwys lwfans hyblygrwydd o 10 y cant) |
| | Cofnodi rhywogaethau'n anghywir neu ddim o gwbl – datganiad glanio |
| | Cofnodi lleoliad dalfa'n anghywir neu ddim o gwbl |
| | Cofnodi math o gêr yn anghywir neu ddim o gwbl |
| | Mesuriadau gêr anghywir |
| | Newid y llyfr log yn anghyfreithlon |
| | Methiant i gofnodi manylion trosglwyddo o gwch i gwch neu gyflwyno datganiad trosglwyddo o gwch i gwch |
| | Methiant i gyflwyno llyfr log neu ddalen log |
| | Methiant i gyflwyno datganiad glanio |
| | Cyflwyno llyfr log yn hwyr |
| | Cyflwyno datganiad glanio yn hwyr |
| | Cofnodi ymdrech yn anghywir neu ddim o gwbl (Dyfroedd Gorllewinol ac ardaloedd adfer) |
| | Methiant i ddarparu nodiadau gwerthiant |
| | Nodiadau gwerthiant anghywir |
| | Cyflwyno nodiadau gwerthiant yn hwyr |
| | Darparu dogfennau cludiant anghywir neu ddim o gwbl |
| | Cyflwyno datganiad meddiannu anghywir neu ddim o gwbl |
| | Methiant i gynnal a chadw neu gario dyfais olrhain drwy loeren gwbl weithredol |
| | Methiant i ddarparu adroddiadau lleoliad yn ddigon aml |
| | Darparu gwybodaeth anwir i'r Ganolfan Monitro Pysgodfeydd |
| | Ymyrryd â throsglwyddo adroddiadau lleoliad lloeren |
| | Mynd i'r môr heb awdurdod |
| | Methiant i ddarparu adroddiadau lleoliad â llaw yn ôl y gofyn |
| | Methiant i ddangos trwydded bysgota neu awdurdodiad dilys gan yr UE |
| | Anfon adroddiad galw i mewn anghywir neu ddim o gwbl |
| | Hysbysiad ymlaen llaw anghywir ynghylch cyrraedd y porthladd neu ddim hysbysiad o gwbl |
| | Trosglwyddo o gwch i gwch ar y môr (dyfroedd yr UE) |
| | Methiant i gyflwyno data llyfr log drwy ddull electronig |
| | Methiant i gyflwyno data llyfr log drwy ddull electronig bob dydd neu ar |

| | |
|---|---|
| | adegau penodol |
| | Methiant i gyflwyno datganiad glanio drwy ddull electronig |
| | Methiant i gyflwyno datganiad glanio drwy ddull electronig o fewn 24 awr i lanio |
| | Methiant i gyflwyno datganiad trosglwyddo o gwch i gwch ar y môr drwy ddull electronig |
| | Methiant i gadw'r neges a anfonwyd yn ôl |
| | Methiant i gadw data e-log nes y cyflwynir datganiad glanio |
| | Methiant i drosglwyddo adroddiadau pysgota â llaw yn ddyddiol neu ar adegau penodol |
| | Gadael porthladd heb awdurdod gydag e-log nad yw'n gweithio |
| | Methiant i gyflwyno nodyn gwerthiant drwy ddull electronig |
| | Methiant i gyflwyno nodyn gwerthiant drwy ddull electronig o fewn 24 awr |
| | Methiant i gyflwyno datganiad meddiannu drwy ddull electronig |
| | Methiant i gyflwyno datganiad meddiannu drwy ddull electronig o fewn 24 awr |
| | Methiant i gyflwyno hysbysiad ymlaen llaw drwy ddull electronig |
| | Troseddau adrodd electronig eraill |
| | Trosglwyddo rhywogaethau adfer o gwch i gwch heb sylwedydd pwyso neu reoli |
| | Trosglwyddo rhywogaethau adfer pelagig o gwch i gwch heb hysbysu |
| | Glanio rhywogaethau pelagig heb eu pwyso sydd wedi'u trosglwyddo o gwch i gwch mewn porthladd heb ei ddynodi |
| | Troseddau llyfr log – eraill |
| | Pysgota heb awdurdod trwydded |
| | Methiant i gludo trwydded ddilys |
| | Methiant i gludo papurau cofrestru dilys |
| | Methiant i gofrestru cwch sy'n pysgota am elw |
| | Prynwr cofrestredig – methiant i gydymffurfio ag amodau cofrestru |
| | Prynwr cofrestredig – methiant i gadw neu ddangos cofnodion |
| | Prynwr heb ei gofrestru |
| | Prynu pysgod o long neu gwch heb drwydded |
| | Gwerthwr cofrestredig – methiant i gydymffurfio ag amodau cofrestru |
| | Gwerthwr cofrestredig – methiant i gadw neu ddangos cofnodion |
| | Gwerthwr heb ei gofrestru |
| | Gwerthu pysgod o long neu gwch heb drwydded |
| | Safle arwerthu – methiant i gydymffurfio ag amodau cofrestru |
| | Pysgota ag injan fwy pwerus na’r hyn sydd yn y drwydded |
| | Defnyddio injan heb ei hardystio |
| | Methiant i ddarparu dogfennaeth ardystio |
| | Methiant i roi gwybod am injan newydd neu amnewid neu addasu injan |
| | Trosedd – amodau trwydded (megis blwch pysgota â chawell) |

| | |
|---|---|
| | Trosedd – cwota'r DU (gan gynnwys pysgodfa gaeedig i longau a chychod y DU) |
| | Trosedd – cwota llong neu gwch (achosion o fynd dros y cwota) |
| | Trosedd – amodau trwydded – porthladdoedd dynodedig (nid rhywogaethau adfer) |
| | Amod trwydded – cegddu (HKE), lleden Fair (LEZ) neu gythraul y môr (ANF) |
| | Trosedd – troseddau trwyddedu eraill |
| | Troseddau eraill y CE – troseddau eraill |
| | Deddfwriaeth y DU – troseddau eraill |

| **Categori 7: Troseddau mynediad** | |
|---|---|
| | Pysgota anghyfreithlon o fewn terfynau pysgodfa Prydain – mynediad |
| | Pysgota anghyfreithlon o fewn terfyn 6 milltir – dynodiad |
| | Pysgota anghyfreithlon o fewn terfyn 12 milltir – dynodiad |
| | Pysgota anghyfreithlon o fewn blwch mecryll (gweler ECCA) |
| | Pysgota anghyfreithlon o fewn blychau pennog |
| | Pysgota anghyfreithlon o fewn blwch corbennog arfordir y dwyrain |
| | Pysgota anghyfreithlon ym mlwch pennog y De-orllewin (Môr Celtaidd) |
| | Pysgota anghyfreithlon ym mlwch gogledd yr Alban |
| | Pysgota anghyfreithlon o fewn blwch swtan Norwy |
| | Pysgota anghyfreithlon yn y blwch lleden |
| | Pysgota anghyfreithlon ym Môr Iwerddon (Cynllun Adfer Penfras) |
| | Pysgota anghyfreithlon ym Môr y Gogledd (Cynllun Adfer Penfras) |
| | Torri mesurau adfer cegddu |
| | Pysgota anghyfreithlon yn y blwch llymrïen |
| | Pysgota anghyfreithlon o fewn terfyn 12 milltir gan dreill-longau trawst |
| | Pysgota anghyfreithlon yn yr ardal gaeedig mewn amser real |
| | Pysgodfa gaeedig – cregyn bylchog |
| | Pysgota am ddraenogiaid y môr mewn ardal silio draenogiaid y môr |
| | Pysgota anawdurdodedig mewn Dyfroedd Gorllewinol gan longau neu gychod o Sbaen |
| | Pysgota anawdurdodedig mewn Dyfroedd Gorllewinol gan longau neu gychod o Ffrainc |
| | Pysgota anawdurdodedig mewn Dyfroedd Gorllewinol gan longau neu gychod o'r Iseldiroedd |
| | Pysgota anawdurdodedig mewn Dyfroedd Gorllewinol gan longau neu gychod o wlad Belg |
| | Pysgota anawdurdodedig mewn Dyfroedd Gorllewinol gan longau neu gychod o’r Almaen |
| | Pysgota anawdurdodedig mewn Dyfroedd Gorllewinol gan longau neu gychod o Ddenmarc |
| | Pysgota anawdurdodedig mewn Dyfroedd Gorllewinol gan longau neu gychod o Sweden |

| | |
|---|---|
| | Pysgota anawdurdodedig mewn Dyfroedd Gorllewinol gan longau neu gychod o Iwerddon |
| | Pysgota heb drwydded gan longau neu gychod o Ynysoedd Ffaröe |
| | Pysgota heb drwydded gan longau neu gychod o Norwy |
| | Pysgodfa heb drwydded – troseddau eraill |
| | |
| | **Categorïau arfaethedig ar gyfer troseddau domestig i'w cynnwys yn y cynllun estynedig** |
| **Categori 8: Troseddau pysgota anghyfreithlon, heb ei adrodd a heb ei reoleiddio (IUU)** | |
| | Methiant i roi hysbysiad ymlaen llaw |
| | Trosglwyddo o gwch i gwch mewn dyfroedd cymunedol (llong neu gwch trydedd wlad) |
| | Methiant i gael tystysgrif dalfa wedi'i dilysu (mewnforion) |
| | Targedu pysgod yn anghyfreithlon sy'n destun moratoriwm neu sydd wedi'u gwahardd |
| | Trosglwyddo anghyfreithlon o gwch i gwch neu weithredu anghyfreithlon gyda llong neu gwch IUU |
| | Gweithredu neu gyflenwi neu gyflogi'n anghyfreithlon llong neu gwch IUU a restrir gan y Gymuned |
| | Ffugio dogfennau neu ddefnyddio dogfennau ffug |
| | Symud llwyth a reolir yn anghyfreithlon |
| | Datgelu gwybodaeth gyfrinachol gan y comisiwn |
| | |
| **Categori 9: Troseddau pysgod rhy fach (UE, DU, Cymru)** | |
| | Pysgod rhy fach – eu cadw neu eu storio neu eu cynnig i'w gwerthu |
| | Rhy fach – crancod |
| | Rhy fach – cimychiaid |
| | Rhy fach – cregyn bylchog |
| | Rhy fach – troseddau pysgod rhy fach eraill y DU |
| | |
| **Categori 10: Troseddau mynediad Cymru (Y glannau)** | |
| | Defnydd anghyfreithlon o lusgrwydi a threillrwydi trawst mewn Ardaloedd Penodedig |
| | Pysgota'n anghyfreithlon am gocos, casglu yn y nos |
| | Pysgota am gregyn bylchog anghyfreithlon - Ardal Benodedig Skomer |
| | Pysgota anghyfreithlon mewn ardal wedi'i chau dros dro |
| | Pysgota anghyfreithlon (llong neu gwch rhy fawr) |
| | Defnydd anghyfreithlon o rwydi sân Daneg ac Angor |
| | Pysgota anghyfreithlon gyda gêr llusg mewn Ardal Benodedig |
| | Pysgota anghyfreithlon gyda rhwyd ddrifft mewn Ardal Benodedig |
| | Pysgota cocos anghyfreithlon yn ystod y tymor caeedig |

| | |
|---|---|
| | Pysgota cregyn bylchog anghyfreithlon mewn Ardal Benodedig |
| | Injan sefydlog anghyfreithlon (ardal neu amseroedd penodedig) |
| | Defnydd anghyfreithlon o dreillrwydi a rhwydi sân mewn Ardal Benodedig |
| | |
| **Categori 11: Troseddau cadwraeth technegol (dalfa) Cymru (Y glannau)** | |
| | Methiant i ddychwelyd pysgod cregyn i’r dŵr |
| | Pysgota anghyfreithlon am wichiaid (heblaw drwy gasglu â llaw) |
| | Dal mwy na’r terfyn dalfa dyddiol ar gyfer pysgodfeydd nas caniateir |
| **Categori 12: Troseddau cadwraeth technegol (gêr) Cymru (Y glannau)** | |
| | Treillrwydi trawst - hyd mwyaf |
| | Rhwydi ag amrediad maint rhwyll anghywir (nid trawst na llawes) |
| | Gêr berdys/corgimychiaid - adeiladwaith |
| | Llusgrwyd molysgiaid dwygragennog anghyfreithlon |
| | Defnyddio offeryn pysgota dwygragennog heb ei gymeradwyo |
| | Methiant i glirio rhwydi sefydlog fel y nodwyd |
| | Rhwyd sefydlog wedi'i gosod yn anghyfreithlon neu heb ei marcio |
| | Defnydd anghyfreithlon o leiniau gosod neu leiniau nos (adeiladwaith neu ardal) |
| | Methiant i farcio gêr a chewyll |
| | Defnydd anghyfreithlon o rwydi llusgo/sân traeth (adeiladwaith neu amodau defnyddio penodedig) |
| | Gosod rhwydi gosod, pystrwydi a stoprwydi yn anghyfreithlon (adeiladwaith neu amodau defnyddio penodedig) |
| | Gosod rhwydi drifft yn anghyfreithlon (adeiladwaith neu amodau defnyddio penodedig) |
| | Isafswm MSR Cilfach Tywyn (unrhyw rwyd) |
| | Amrediad maint rhwyllau anghywir - Gogledd (nid trawst) |
| | Bachu annheg |
| **Categori 13: Tramgwyddau trwydded Cymru (Y glannau)** | |
| | Pysgota am gimychiaid, cimychiaid coch, crancod, corgimychiaid a chregyn moch heb drwydded. |
| | Pysgota am gocos yn Tair Afon heb drwydded neu amodau trwydded |
| | Pysgota heb drwydded neu fethiant i gydymffurfio ag amodau trwydded |

**Atodiad 3: Templedi Talu**

**i. Llythyr i gyd-fynd ag Hysbysiad Cosb**

## Is-adran y Môr a Physgodfeydd / Marine & Fisheries Division

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf:
E-bost: milfordhavenfisheriesoffice@gov.wales

Enw
Cyfeiriad

Dyddiad

Annwyl [nodwch yr enw yma]

**Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019**
**Cosb Weinyddol Ariannol**

Amgaeaf y Gosb Weinyddol Ariannol rydym am ei chynnig i chi fel setliad y tu allan i'r llys ar gyfer y troseddau canlynol:
Digwyddodd y drosedd a ddisgrifir yn *[enw'r lleoliad*]
Sef:
[*Disgrifiwch y drosedd yma*]

Dylech ddarllen drwy'r dogfennau amgaeedig yn ofalus. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar yr ohebiaeth hon.
Yn gywir,

Pennaeth Canolfan Monitro Pysgodfeydd Cymru

Is-adran y Môr a Physgodfeydd
Llywodraeth Cymru

**ii. Hysbysiad o Gyfle i Dalu**

# Is-adran y Môr a Physgodfeydd / Marine & Fisheries Division

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019**
**Cosb Weinyddol Ariannol – Hysbysiad o Gyfle i Dalu**

**Cyfeirnod:** ________________________
**Dyddiad y drosedd:** ________________________
**Enw'r cwch neu long:** ________________________________
**Llythrennau a rhifau'r porthladd (PLN):** __________________________

**Troseddwr honedig:** ______________________________
**Statws:** ____________________________
**Dyddiad geni:** ___________________________
**Cyfeiriad:** ______________________________________________________________
______________________________________________________________________
______________________________________________________________________
______________________________________________________________________
________________

Mae gennyf i, (enw), Pennaeth Canolfan Monitro Pysgodfeydd Cymru yn Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru, reswm dros gredu eich bod chi ar *[nodwch ddyddiad y drosedd*] wedi *[nodwch y drosedd*]
Digwyddodd y drosedd a ddisgrifir yn *[enw'r lleoliad*]
Sef: [*Nodwch fanylion y drosedd*]

Yn yr achos hwn, mae Is-adran y Môr a Physgodfeydd yn Llywodraeth Cymru yn rhoi Cosb Weinyddol Ariannol i chi.
Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi cyfle i chi gael eich rhyddhau o unrhyw atebolrwydd i gael eich dyfarnu'n euog o'r drosedd honno drwy dalu cosb.

**Swm y gosb yw £** ______________________

**Enw'r unigolyn sy'n derbyn yr hysbysiad:**

**______________________________________________**

**Llofnod yr unigolyn sy'n derbyn yr hysbysiad:**

**____________________________________________**

**Statws yr unigolyn sy'n derbyn yr hysbysiad:**

**________________________________________________**

**Enw'r Swyddog Gorfodi Pysgodfeydd sy'n postio'r hysbysiad:**

**________________________________**

**Llofnod y Swyddog Gorfodi Pysgodfeydd sy'n postio'r hysbysiad:**

**____________________________**

**Dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad:** ______________________

**Rhaid derbyn taliad cyn:** ______________________
28 DIWRNOD CALENDR WEDI DYDDIAD CYHOEDDI’R HYSBYSIAD

**Taliad**
Rhaid iddo beidio â bod mewn arian parod. Dim ond trwy Siec neu drosglwyddiad electronig – drwy Gov.Pay.

**Siec**
Dylid gwneud drafftiau (sterling yn unig) yn daladwy i "Llywodraeth Cymru", a dylid nodi cyfeirnod yr hysbysiad cosb ar y cefn, a'i anfon at:
Is-adran y Môr a Physgodfeydd
Llywodraeth Cymru,
Ystafell 3 - Cwrt Cedrwydden,
Parc Busnes Haven's Head,
Aberdaugleddau,
SA73 3LS

Rhaid i'r taliad gael ei **dderbyn** cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod calendr sy'n dechrau ar ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad.

**Trosglwyddiad electronig drwy Gov.Pay**
https://www.gov.uk/payments/fisheries-financial-administrative-penalty/llywodraeth-cymru-pysgodfeydd-cosb-weinyddol?_ga=2.71221266.300437696.1615809858-1156490126.1614608561

Dylai trosglwyddiadau nodi cyfeirnod yr hysbysiad cosb.

Rhaid i'r taliad fod **yn ein cyfrif** cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod calendr sy'n dechrau ar

ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad.

**Gwrthwynebiad i'r gosb**
Rhaid anfon hysbysiadau ysgrifenedig o wrthwynebiad at:
Is-adran y Môr a Physgodfeydd
Llywodraeth Cymru
Ystafell 3 - Cwrt Cedrwydden
Parc Busnes Haven's Head
Aberdaugleddau
Sir Benfro
SA73 3LS.

**Mae Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 i'w weld isod.**

### Cyflwyno hysbysiad cosb

**1.**—(1) Pan fo gan swyddog reswm dros gredu bod person wedi cyflawni trosedd cosb, caiff y swyddog ddyroddi hysbysiad cosb i'r person hwnnw am swm heb fod yn fwy na £10,000.

(2) Wrth benderfynu ar y gosb, rhaid i swyddog roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru ynghylch materion sydd i'w cymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniad o'r fath.

(3) Mae hysbysiad cosb wedi ei ddyroddi ar yr adeg yr anfonir ef drwy'r post neu y traddodir ef â llaw i'r person y mae'n ymwneud ag ef.

### Cynnwys hysbysiad cosb

**2.**—(1) Rhaid i hysbysiad o gosb a ddyroddir o dan erthygl 3—

(a) rhoi manylion y drosedd cosb;

(b) datgan swm y gosb;

(c) datgan yn ystod pa gyfnod, yn rhinwedd erthygl 5, na chychwynnir achos ynglŷn â'r drosedd;

(d) datgan i ba berson ac ym mha gyfeiriad y gellir talu'r gosb; ac

(e) datgan bod rhaid peidio â thalu ag arian parod.

### Cyfyngiad ar ddwyn achos am drosedd cosb

**3.**—(1) Pan fo hysbysiad cosb wedi ei roi i berson—

(a) ni chaniateir dwyn achos yn erbyn y person hwnnw am y drosedd cosb y mae'r hysbysiad hwnnw'n ymwneud ag ef cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau ar y dyddiad y dyroddwyd yr hysbysiad; a

(b) ni chaniateir collfarnu'r person hwnnw am y drosedd os telir y gosb cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(2) O ran Paragraff (1)—

(a) mae'n ddarostyngedig i erthygl 10; a

(b) nid yw'n gymwys os tynnir yr hysbysiad cosb yn ôl yn unol ag erthygl 9.

### Talu'r gosb

**4.**—(1) Rhaid talu cosb i'r person a bennir yn yr hysbysiad cosb drwy ei hanfon drwy'r post neu drwy unrhyw ddull a bennir yn yr hysbysiad cosb.

(2) Ni chaniateir ei thalu ag arian parod.

### Trin taliad am un gosb fel taliad am gosbau cysylltiedig

**5.**—(1) Pan fo person ("A") yn talu'r gosb yn unol ag erthygl 6, rhaid i swyddog roi hysbysiad ("hysbysiad taliad tybiedig" (*"notice of deemed payment"*)) i bob person arall y dyroddwyd hysbysiad cosb cysylltiedig iddo.

(2) Mae hysbysiad cosb yn "hysbysiad cosb cysylltiedig" (*"connected penalty notice"*) os yw'r drosedd cosb y mae'r hysbysiad hwnnw'n ymwneud â hi yr un fath â'r drosedd cosb y mae'r hysbysiad cosb a ddyroddwyd i A ac a dalwyd ganddo yn ymwneud â hi, ac yn codi o'r un set o amgylchiadau â hi.

(3) Rhaid i hysbysiad taliad tybiedig—

(a) cael ei anfon drwy'r post neu ei draddodi â llaw;

(b) dangos bod A wedi talu'r gosb am hysbysiad cosb cysylltiedig A;

(c) dangos y trinnir yr hysbysiad cosb a ddyroddwyd i dderbynnydd yr hysbysiad taliad tybiedig fel pe bai wedi ei dalu oni bai bod y person hwnnw'n rhoi hysbysiad ysgrifenedig yn dangos na ddylai gael ei drin felly ("hysbysiad gwrthwynebu" *("notice of objection"*)); a

(d) datgan enw a chyfeiriad y person y mae'n rhaid rhoi unrhyw hysbysiad gwrthwynebu iddo.

(4) Rhaid anfon hysbysiad gwrthwynebu drwy'r post neu ei draddodi â llaw i'r person a ddatgenir ym mharagraff (3)(d) o fewn—

(a) 28 diwrnod yn dechrau â'r dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad taliad tybiedig; neu

(b) os yw'n hwyrach, 5 diwrnod yn dechrau â'r dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad taliad tybiedig.

(5) Os na roddir hysbysiad gwrthwynebu yn unol â'r erthygl hon, mae'r hysbysiad cosb a ddyroddwyd i berson y rhoddwyd hysbysiad taliad tybiedig iddo i'w drin fel pe bai wedi ei dalu.

### Tystysgrif bod hysbysiad cosb wedi ei dalu neu heb ei dalu

**6.** Mewn unrhyw achos mae tystysgrif yr honnir ei bod wedi ei llofnodi gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan ac sy'n dweud bod taliad ar gyfer hysbysiad cosb wedi dod i law neu heb ddod i law ar neu cyn dyddiad a bennir yn y dystysgrif yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatgenir.

### Tynnu hysbysiad cosb yn ôl

**7.**—(1) Caniateir i hysbysiad cosb gael ei dynnu'n ôl gan swyddog y mae ganddo reswm dros gredu na ddylai fod wedi ei ddyroddi (ynteu i'r person a enwyd yn yr hysbysiad cosb neu fel arall).

(2) Caniateir i hysbysiad cosb gael ei dynnu'n ôl cyn i'r gosb gael ei thalu neu ar ôl i’r gosb gael ei thalu.

(3) Os tynnir hysbysiad cosb yn ôl rhaid i unrhyw gosb a dalwyd gael ei had-dalu.

**Cychwyn achos ar ôl i gosb gael ei thalu mewn perthynas â chychod pysgota o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig**

**8.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys o ran hysbysiad cosb a ddyroddir i feistr, perchennog neu siartrwr cwch pysgota heblaw cwch pysgota o’r Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon neu Loegr.

(2) Pan fo person sydd wedi cael hysbysiad cosb wedi talu'r gosb, caiff y person hwnnw roi hysbysiad ysgrifenedig yn gofyn i achos gael ei ddwyn ynglŷn â’r drosedd cosb y mae'r hysbysiad cosb yn ymwneud â hi.

(3) Rhaid i’r hysbysiad hwn—

(a) nodi bod y person sy'n rhoi'r hysbysiad yn dymuno i achos gael ei ddwyn ynglŷn â’r drosedd cosb y mae'r hysbysiad cosb yn ymwneud â hi; a

(b) cael ei roi heb fod yn hwyrach na diwedd y cyfnod o 28 diwrnod yn dechrau â’r dyddiad y dyroddwyd yr hysbysiad cosb.

(4) Pan fo hysbysiad o'r fath wedi ei roi gan berson, caniateir i achos gael ei ddwyn yn erbyn y person hwnnw.

(5) Pan roddir y gorau i achos o'r fath neu pan ryddfernir y person o'r drosedd, mae'r hysbysiad cosb i'w drin fel pe bai heb gael ei ddyroddi erioed a rhaid i unrhyw gosb a dalwyd gael ei had-dalu.

(6) Pan gollfernir person o’r drosedd, mae'r hysbysiad cosb i'w drin fel pe bai heb gael ei ddyroddi erioed ac mae paragraff (7) neu (8) yn gymwys fel y bo'n briodol.

(7) Os gosodir dirwy ar y person ynglŷn â'r drosedd cosb rhaid i swyddog—

(a) gymhwyso hynny o’r gosb nad yw'n fwy na swm y ddirwy i dalu’r ddirwy neu tuag at dalu'r ddirwy; a

(b) ad-dalu hynny o'r gosb sy'n fwy na swm y ddirwy.

(8) Os na osodir dirwy ar y person ynglŷn â'r drosedd cosb, rhaid i unrhyw gosb a dalwyd gael ei had-dalu.

Y Môr a Physgodfeydd
Llywodraeth Cymru
Ystafell 3 – Cwrt Cedrwydden
Parc Busnes Haven's Head
Aberdaugleddau
Sir Benfro
SA73 3LS

Cyfeirnod: [*nodwch y cyfeirnod*]

**Derbyn hysbysiad cosb**

Os na fydd Llywodraeth Cymru yn derbyn yr hysbysiad derbyn hwn **cyn** [*RHOWCH Y DYDDIAD 28 DIWRNOD CALENDR AR ÔL DYDDIAD CYFLWYNO'R HYSBYSIAD*], gall achos troseddol gael ei gychwyn mewn perthynas â'r drosedd cosb.
A fyddech cystal â dychwelyd yr hysbysiad derbyn hwn i Lywodraeth Cymru yn y cyfeiriad uchod.

Rwy'n derbyn y gosb o £[*nodwch y swm*] a gynigiwyd am y drosedd a gyflawnwyd ar [*nodwch ddyddiad y drosedd*].

**Enw:**
______________________________________________________________

**Llofnod:**
______________________________________________________________

**Statws:**
______________________________________________________________

**Dyddiad:** ______________________

### iii. Hysbysiad o Daliad

## Is-adran y Môr a Physgodfeydd / Marine & Fisheries Division

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf:
E-bost: milfordhavenfisheriesoffice@gov.wales

Enw
Cyfeiriad

Dyddiad

Annwyl [rhowch yr enw yma]

**Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019**
**Cosb Weinyddol Ariannol – Hysbysiad o Daliad**

CYFEIRNOD FFEIL ACHOS

Ar [*nodwch y dyddiad*], chi oedd perchennog y llong/cwch pysgota [*nodwch enw'r llong neu gwch a llythrennau a rhifau'r porthladd (PLN)*] sydd wedi'i gofrestru yn [*nodwch enw'r wlad*].
Ar y dyddiad hwn canfuwyd trosedd pysgodfeydd yr oeddech chi fel [*nodwch statws* y *troseddwr*] yn atebol amdani ar y cyd ac yn unigol, a chynigiwyd y cyfle i chi ryddhau eich atebolrwydd i gael eich erlyn drwy dalu cosb.
Credydwyd taliad y gosb i gyfrif Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru ar [*nodwch ddyddiad derbyn y taliad*].
Felly, hoffwn eich hysbysu bod eich atebolrwydd i gael eich erlyn am y drosedd hon wedi'i ryddhau. Fodd bynnag, bydd cofnod o'r hysbysiad cosb yn cael ei gadw. Os ydych yn destun ymchwiliad troseddol gan Is-adrannau Morol a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, gellir ystyried y ffaith bod hysbysiad cosb wedi'i gyflwyno a'i dalu wrth benderfynu a ddylid dwyn achos troseddol ai peidio. Os cewch eich erlyn, gall y ffaith bod hysbysiad cosb wedi'i gyflwyno a'i dalu gael ei roi mewn tystiolaeth.

Mae manylion y cynllun cosb weinyddol ariannol i'w gweld ar wefan Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru yn [*rhowch y wefan yma*]

Yn gywir,

Pennaeth Canolfan Monitro Pysgodfeydd Cymru
Is-adran y Môr a Physgodfeydd
Llywodraeth Cymru

**Atodiad 4: Dulliau talu**

**Gyda siec**
Dylid gwneud sieciau (sterling yn unig) yn daladwy i "Llywodraeth Cymru", gyda'r cyfeirnod (eich rhif PFV) ar y cefn, a'u hanfon at:

Is-adran y Môr a Physgodfeydd
Llywodraeth Cymru
Ystafell 3 – Cwrt Cedrwydden
Parc Busnes Haven's Head
Aberdaugleddau
Sir Benfro
SA73 3LS

**Trwy drosglwyddiad electronig - Gov.Pay**
https://www.gov.uk/payments/fisheries-financial-administrative-penalty/llywodraeth-cymru-pysgodfeydd-cosb-weinyddol?_ga=2.71221266.300437696.1615809858-1156490126.1614608561

Dylai trosglwyddiadau nodi cyfeirnod yr hysbysiad cosb.

Dyfynnwch eich Rhif PFV e.e. PFVnnnn

**Trosglwyddiadau sterling o gyfrifon banc y tu allan i'r DU**
Swm mewn Sterling
Cyfeirnod: PFV**nnnn**
*Gweler Atodiad 5*

**Derbyn arian cyfred tramor (nid Ewro) mewn Sterling o gyfrif banc tramor (trawsffiniol)**
Swm mewn arian cyfred tramor (digon i dalu'r gosb Sterling ar ôl ei drosi)
Cyfeirnod: PFVnnnn
*Gweler Atodiad 5*

**Derbyn Ewros mewn Sterling o gyfrif banc yn y DU (domestig) neu gyfrif banc tramor (trawsffiniol)**
Swm mewn Ewros (digon i dalu'r gosb Sterling ar ôl ei drosi)
Cyfeirnod: PFVnnnn
*Gweler Atodiad 5*

**Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am daliadau at Dîm Cyllid Llywodraeth Cymru ar +44 (0) 3000 604400**

**Atodiad 5: Manylion talu o arian cyfred tramor**

Manylion Talu Ychwanegol ar gyfer:

1. Derbyn arian cyfred tramor (nid Ewro) mewn Sterling o gyfrif banc tramor (trawsffiniol)

2. Derbyn Ewros mewn Sterling o gyfrif banc yn y DU (domestig) neu gyfrif banc tramor (trawsffiniol)

   Cofiwch, rhaid i'r taliadau mewn Ewros fod yn ddigonol i dalu cyfanswm gwerth y gosb ar ôl ei droi'n sterling ar y gyfradd drosi adeg y taliad.

   Dylai pob taliad gynnwys eich rhif cyfeirnod PFV, e.e. PFVnnnn

| | |
|---|---|
| Enw Llawn y Cwmni | Llywodraeth Cymru |
| Rhif Cofrestru'r Cwmni | Amh (Adran y Llywodraeth) |
| Cyfeiriad Llawn | Llywodraeth Cymru<br>Adeiladau'r Goron<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ |
| Rhif Ffôn | 03000 604400 |
| Rhif Ffacs | 029 2037 0334 |
| Cyfeiriad E-bost | DesgGymorthCydwasanaethau@llyw.cymru<br>SharedServiceHelpdesk@gov.wales |
| Enw Cyswllt | Lisa Gibson |
| Enw'r Banc | National Westminster |
| Cyfeiriad y Banc | 280 Bishopsgate, Llundain, EC2M 4RB |
| Cod Didoli | 60-70-80 |
| Rhif y Cyfrif Banc | 10003061 |
| Enw'r Cyfrif Banc | Llywodraeth Cymru |
| IBAN | GB50NWBK60708010003061 |
| Swift/BIC | NWBKGB2L |
| Arian Cyfred y Taliad | GBP |
| Rhif Cofrestru TAW | GD 8888 350 56 |
| Aelod o'r CIS (os ie, rhowch fanylion) | Amh |
| Cyf. UTR (Cyfeirnod Unigryw Trethdalwr) | 44032 70623 |